

## SIÔN BRWYNOG (bu farw 1567?), bardd

**Enw:** Siôn Brwynog  
**Dyddiad marw:** 1567?  
**Priod:** Jane ferch Owen ap Ifan ap Madog  
**Plentyn:** William Brwynog  
**Rhiant:** William ap Llywelyn ap Iorwerth  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** bardd  
**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth  
**Awdur:** Enid Pierce Roberts

Mab i William ap Llywelyn ap Iorwerth. Ym Mrwynog, plwyf Llanfflewyn, sir Fôn, yr oedd ei gartref, ac oddi wrth enw'r fferm y cafodd ei gyfenw. Perthynai i ddosbarth y mân ysweiniaid. Byddai'n clera rhan helaeth o'r wlad, a chanodd i uchelwyr Môn, Arfon, Dinbych, Fflint, a Meirion. Bu ymryson fer rhyngddo a **Gruffudd Hiraethog** ynghylch rhagoriaethau Môn a Thegaingl. Canodd i Harri VIII a Mari, crybwyllodd Edward VI, ond ni soniodd am Elisabeth. Pabydd selog ydoedd heb na chariad na pharch at y grefydd newydd. Ni cheir ei enw ymhlith y beirdd yn eisteddfod Caerwys 1523. Ei wraig oedd Jane, merch Owen ap Ifan ap Madog o'r Ucheldre, Llanfflewyn. Bu iddynt fab o'r enw William Brwynog.

Bu Siôn Brwynog farw yn 1562 yn ôl marwnad gan **Gruffudd Hiraethog** (Bodleian MS. 31440, f. 4, 176-80), a'u gladdu ym mynwent Llanddeusant.

### Awdur

Dr Enid Pierce Roberts

### Ffynonellau

W. J. Gruffydd, *Llenyddiaeth Cymru o 1450 hyd 1600* (Lerpwl 1922), 75-6

U.C.N.W. Gaianydd papers, 21, 'Cywyddau Siôn Brwynog'

J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 79

Archifau LIGC: *Peniarth MS 122: Poetry, &c.* (123)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

Frannu

Arddull APA

x

Roberts, E. P., (1953). SIÔN BRWYNOG (bu farw 1567?), bardd. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-SION-BRW-1562>

Cyfeirnod

Preifatrwydd a Chwcis  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government